

Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

Diweddariad Bwrdd y Rhaglen Strategol Mis Mehefin 2022



Croeso i rifyn cyntaf e-gylchlythyr misol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSGS)

NEWYDDION

Iechyd Meddwl a Llesiant: Mae rownd gyntaf y cyflwyniadau i gyflwyno'r adroddiad cenedlaethol drafft i Gyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, Is-Gadeiryddion a'r Bwrdd Rhwydwaith Iechyd Meddwl wedi'i threfnu – cadwch lygad am ddigwyddiadau ymgysylltu rhithwir sy'n ar y gweill ledled Cymru dros gyfnod yr haf i rannu'r gwaith hwn.

Gofal Sylfaenol Gwyrddach: Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Cafodd hwn ei lansio'n swyddogol ar 8 Mehefin a gallwch wyllo'r gweminar drwy glicio [yma](#). Mae mwy o wybodaeth ar gael drwy ymweld â [Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru](#).

Adolygiad gan Gymheiriaid Clwstwr: Cefnogwyd y broses adolygu gan gymheiriaid ar gyfer blwyddyn pontio'r Cyfarwyddbau Gofal Uwch (CGU) gan y Bwrdd Rhaglen Strategol. Mae'r adolygiad gan gymheiriaid yn elfen o'r fframwaith monitro a gwerthuso ehangach [ar gyfer Model Gofal Sylfaenol Cymru](#). Yn 2022/23 bydd yr adolygiad gan gymheiriaid yn cael ei beilota i brofi'r fethodoleg. Mae'r **Athro Ceri Phillips** wedi cael ei gadarnhau fel Cadeirydd y panel adolygu gan gymheiriaid. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio pecyn briffio ar gyfer y safleoedd peilot - mwy o wybodaeth i ddilyn.

Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (RhADCG) Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ledled Cymru ar roi RhADCG ar waith ar draws 14 clwstwr Tonnau 1 (92 o bractisau'r GMC) a bydd yn cynnwys rhai clystyrau sy'n defnyddio arian y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol (RhSGS) a ffynonellau cyllido eraill. Cafodd y rhaglen ei [lansio](#) i gyd-fynd ag wythnos 'Ymwybyddiaeth Diabetes' Diabetes UK yn ystod yr wythnos 13-19 Mehefin a oedd yn cynnwys ymweliad gan y Dirprwy Weinidog â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe i glywed gan gleifion a gweithwyr proffesiynol am y Rhaglen. Fel rhan o'r lansiad, [cyhoeddwyd Protocol Ymyriadau RhADCG](#) hefyd.

CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL

Mae gwaith yn yr RhSGS wedi symud ymlaen ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn o ran darparu'r cynhyrchion y cytunwyd arnynt. Mae'r cyflawniadau allweddol y chwarter hwn yn cynnwys:

[Lansio pecyn cymorth ar-lein y Datblygiad Clwstwr Carlam \(DCC\)](#) sy'n cynnig gwybodaeth ac adnoddau i randdeiliaid gefnogi'r gwaith o roi rhaglen CGU ar waith yn ystod blwyddyn bontio 2022/23. Yn gynwysedig yn y pecyn cymorth hwn mae dau ddarlun, [map ffordd](#) a [throsolwg ar sail cynllun ar dudalen](#) i esbonio'r CGU yn ei gyfanrwydd.

Lansio'r Porthol Cymorth Cynllunio Clwstwr – sef adnodd ar-lein i gefnogi datblygiad cynlluniau blynyddol grwpiau Clwstwr/Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr.

Mae gwaith ar y **Seilwaith Cymunedol** yn mynd rhagddo yn gyflym ac mae'r grŵp rhanddeiliaid allweddol wedi'i sefydlu ac mae ei gyfarfodydd cyntaf wedi'i gynnal. Mae'r grwpiau cymorth gorchwyl a gorffen hefyd wedi'u sefydlu ar gyfer:

- Model Imiwneiddio Cartrefi Gofal
- Fframwaith y Weledigaeth Nyrsio Cymunedol
- Ward Aml Broffesiwn a Rhithwir

Mae sianel YouTube RhGS wedi lansio recordiadau o ddigwyddiadau a fideos yn rhannu gwybodaeth.

Cadwch lygad am y canlynol:

Mae pennod newydd wedi ei huwchlwytho [becyn cymorth y CGU](#) ar Gwmnïau Buddiannau Cymunedol gan gynnwys astudiaeth achos gyda Red Kite.

Iechyd Meddwl a Lles: Rhannu'r canfyddiadau - bydd dyddiadau'r sesiynau ymgysylltu rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir - os hoffech glywed amdanynt ymunwch â'n rhestr bostio yn y lle cyntaf :sppc@wales.nhs.uk

Pecyn cymorth Rheoli Prosiectau: Yn cael ei lansio'n ar wefan RhSGS - adnodd gwyb sy'n cynnwys templedi a chanllawiau ar 'sut i wneud pethau' ar gyfer popeth o ysgrifennu achos busnes i sefydlu prosiect.

Mae **adroddiad diwedd blwyddyn RhSGS** wedi'i gyhoeddi - cliciwch y ddolen i'w ddarllen

Mae **Cylchlythyr Gwanwyn RhSGS** wedi'i gyhoeddi - cliciwch y ddolen i'w ddarllen

Gweminar Conffederasiwn y GIG Cynhelir 'Gofal yn seiliedig ar Leoedd' yng Nghymru ar 7 Gorffennaf. Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg strategol cryno o ofal yn seiliedig ar leoedd drwy lygaid gwaith clwstwr cyn edrych yn fanwl iawn ar roi 'gofal yn seiliedig ar leoedd; ar waith yng Nghymru. Byddwn yn clywed gan amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn gweithio gyda'i gilydd ar lefel clwstwr cyn y pan demig yn ogystal â myfyrio ar eu sefyllfa ar hyn o bryd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech gyflwyno cwestiwn ymlaen llaw, anfonwch e-bost at Sandra sandra.cummings@wales.nhs.uk. Cynhelir y digwyddiad yma ar Zoom. A wnewch chi [gofrestru](#) os gwelwch yn dda i sicrhau eich bod yn derbyn y gwahoddiad calendr gyda'r ddolen ymuno.

Cysylltwch â'r RhSGS yn



sppc@wales.nhs.uk



Dilynwch ni: @SPPCWales



[Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un \(gig.cymru\)](#)



[Cliciwch yma](#)
[sganiwch y cod QR](#)

